SCAM WARNING | During a time where more and more people are grocery shopping online or using click and collect services, a number of you have reported to us that you've received scam calls from fraudsters pretending to be Tesco.

The automated call states that your Tesco order has been placed and your account will be debited £350. The call goes on to say "if this is not the right amount, please press 1 to go through to our fraud team".

With this type of call, if '1' is pressed, the scammer will attempt to gain as many personal details as possible from you, including your bank details.

These are smart criminals who know what they're doing, and they will often appear genuine. If you receive a call like this, it's best to hang up and either check your Tesco online account yourself, or call Tesco directly from a number you have obtained.

You can help protect yourself from such scams by following this advice:

• Do not pass any personal or financial details to anyone who calls you out of the blue.

• Do not follow any links if the criminals text or email them through. These will take you to fake sites that are built to look authentic.

• Never accept or download any remote software to your computer that allows other people to access it.

• Do not sign into your bank account online if you have installed remote access software, otherwise there's a good chance you'll lose money.

• If someone on a cold call asks you to download a remote access app or access your bank account – end the call.

• If you have received a call like this, and you've accessed your account or transferred money – always contact your bank on the number on the back of your bank card. Never use a number you're given by the caller.

• Always remember to STOP-CHALLENGE-PROTECT

You can report any incidents where you've fallen victim to this type of fraud to us:

| http://orlo.uk/NDKsA

| 101@dyfed-powys.pnn.police.uk

| 101

RHYBUDD TWYLL | Ar adeg pan mae mwy a mwy o bobl yn siopa bwyd ar-lein neu'n defnyddio'r gwasanaeth clicio a chasglu, mae nifer ohonoch wedi dweud wrthym eich bod chi wedi derbyn galwadau twyllodrus gan dwyllwyr yn esgus eu bod nhw'n galw ar ran archfarchnad Tesco.

Mae'r alwad awtomataidd yn dweud bod eich archeb wedi'i gosod gyda Tesco ac y bydd £350 yn cael ei ddebydu ar eich cyfrif. Mae'r alwad yn mynd ymlaen i ddweud, "Os yw'r swm hwn yn anghywir, gwasgwch 1 i gael eich cysylltu â'n tîm twyll."

Â galwad o'r fath, os fyddwch chi'n gwasgu '1', bydd y twyllwr yn ceisio cael cymaint o fanylion personol â phosibl wrthych, gan gynnwys eich manylion banc.

Mae'r troseddwyr hyn yn glyfar, ac yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud. Byddant yn aml yn ymddangos yn ddilys. Os fyddwch chi'n derbyn galwad o'r fath, y peth gorau i wneud yw rhoi'r ffôn i lawr a gwirio'ch cyfrif Tesco ar-lein eich hun, neu ffonio Tesco'n uniongyrchol gan ddefnyddio rhif yr ydych wedi ei gael.

Medrwch helpu i amddiffyn eich hun rhag twyll o'r fath drwy ddilyn y cyngor canlynol:

• Peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth bersonol neu ariannol i unrhyw un sy'n eich galw'n ddirybudd.

• Peidiwch â dilyn unrhyw ddolenni os yw'r troseddwyr yn eu hanfon drwy neges destun neu e-bost. Bydd y rhain yn eich tywys i safleoedd ffug sydd wedi'u creu i edrych yn ddilys.

• Peidiwch byth â derbyn neu lawrlwytho unrhyw feddalwedd o bell i'ch cyfrifiadur sy'n rhoi mynediad i bobl eraill.

• Peidiwch â mewngofnodi i'ch cyfrif banc ar-lein os ydych chi wedi gosod meddalwedd mynediad o bell, neu mae perygl gwirioneddol y byddwch chi'n colli'ch arian.

• Os oes rhywun yn eich galw'n ddirybudd ac yn gofyn ichi lawrlwytho ap mynediad o bell neu'n gofyn am fynediad o bell i'ch cyfrif banc – gorffennwch yr alwad.

• Os ydych chi wedi derbyn galwad o'r fath ac wedi cael mynediad i'ch cyfrif neu wedi trosglwyddo arian – cysylltwch â'ch banc gan ddefnyddio'r rhif sydd ar gefn eich cerdyn banc bob amser. Peidiwch byth â defnyddio rhif yr ydych wedi ei dderbyn gan y galwr.

• Cofiwch ATAL-HERIO-DIOGELU bob amser.

Medrwch adrodd am unrhyw ddigwyddiadau lle'r ydych chi wedi dioddef y math hwn o dwyll inni:

| http://orlo.uk/atyB8

| 101@dyfed-powys.pnn.police.uk

| 101